Papur 11

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**

—

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrh Elin Jones AS
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

15 Mai 2024

Annwyl Lywydd,

Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3 a Memorandwm Rhif 4) Llywodraeth Cymru ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad

Mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno ar derfyn amser o ddydd Gwener 31 Mai 2024 i'm Pwyllgor i, a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai gyflwyno adroddiad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol (Memorandwm Rhif 3 a Memorandwm Rhif 4) Llywodraeth Cymru ar y Bil Diwygio Lesddaliad a Rhydd-ddaliad.

Rwy'n ysgrifennu atoch i ofyn i'r terfyn amser gael ei ymestyn i ddydd Llun 3 Mehefin 2024, er mwyn galluogi fy Mhwyllgor i ystyried adroddiad ar y memoranda, a chytuno arno, yn ei gyfarfod y prynhawn hwnnw. Deallaf fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal dadl ar gynnig cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil Diwygio Lesddaliad a Rhydd-ddaliad ddydd Mawrth 4 Mehefin. Felly, ni fyddai'r estyniad byr hwn yn effeithio ar amserlennu busnes Llywodraeth Cymru.

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

Yn gywir,

S. Murphy

Sarah Murphy
Cadeirydd

Senedd Cymru
Welsh Parliament